29/01/2026

# Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid TrC

Diweddariad Cynnydd Blynyddol 2023/24

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


Cynnwys ....................................................................................................2

1 Cyflwyniad ....................................................................................................3

2 Amcan 1: Sicrhau bod y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o bopeth a wnawn....................................................................................................3

2.1 Fframwaith Llywodraethu ....................................................................................................3

2.2 Grŵp Llywio Newid yn yr Hinsawdd ....................................................................................................4

2.3 Gweithgor Ymaddasu i'r Hinsawdd ....................................................................................................4

2.4 Fframwaith Llywodraethu ....................................................................................................4

3 Amcan 2: Asesu risgiau newid yn yr hinsawdd ar draws holl rwydweithiau a gweithrediadau TrC 4

3.1 Fframwaith Asesu Risgiau Newid Hinsawdd ....................................................................................................4

3.1.1 Cyhoeddi a Chanllawiau ....................................................................................................4

3.1.2 Risgiau Newid Hinsawdd ar Linellau Craidd y Cymoedd ....................................................................................................5

3.1.3 Aberpennar - Gweithdy Asesiad Risg Newid Hinsawdd ....................................................................................................5

4 Amcan 3: Llunio a gweithredu atebion sy'n lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol ....................................................................................................6

4.1 Mabwysiadu CCRA yn gynnar mewn Prosiectau ....................................................................................................6

4.2 Llwybrau Addasu Cyflym ....................................................................................................6

4.3 Wal a Tho Gwyrdd yn Llys Cadwyn ....................................................................................................7

5 Amcan 4: Galluogi adferiad amserol o effeithiau tywydd garw ....................................................................................................8

5.1 Monitro'r Effeithiau ....................................................................................................8

5.2 Cynllunio ar gyfer Tywydd Garw ....................................................................................................8

5.3 Monitro Cyflwr Llwybrau ....................................................................................................8

5.4 Prifysgol Caerdydd - Mapio Llifogydd Afonol ....................................................................................................8

6 Amcan 5 - Cydweithio â phartneriaid allanol i leihau pa mor agored ydy TrC i fethiannau cronnus ....................................................................................................9

6.1 Ein Gwaith gyda Network Rail ....................................................................................................9

6.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ....................................................................................................9

6.3 Gweithgorau a Fforymau Allanol ....................................................................................................9

7 Crynodeb o'r prif gamau gweithredu diweddaraf ....................................................................................................10

8 Blaenoriaethau ar gyfer 2024-25 ....................................................................................................13

# 1 Cyflwyniad

Mae llythyr cylch gwaith Tymor y Llywodraeth i Trafnidiaeth Cymru yn gofyn i ni "sicrhau bod holl weithrediadau TrC sy'n cael eu cyflawni ar ran Gweinidogion Cymru, yn cael eu llunio a'u darparu ar sail y data diweddaraf ar risg ac effeithiau newid yn yr hinsawdd a bod cynlluniau cadarn ar waith i addasu i'r newid yn yr hinsawdd." Mae ein Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid (CARP), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023, yn rhoi'r fframwaith strategol i ni ar gyfer cyflawni'r cylch gwaith hwn. Roedd y CARP yn seiliedig ar y data diweddaraf ar risg newid hinsawdd Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) a'i nod yw cryfhau cadernid ein rhwydweithiau a'n gweithrediadau trafnidiaeth.

Mae ein CARP a'n Hasesiadau Risg Newid Hinsawdd (CCRAs) wedi'u cynllunio i gyd-fynd ag argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD). Rhy canllawiau'r TCFD fframwaith strwythuredig ar gyfer adrodd ar ymaddasu i'r hinsawdd a risg yn unol â swyddogaethau gweithredol corfforaethol craidd: Llywodraethu, Strategaeth, Rheoli Risg, a Metrigau a Thargedau. Mae'r diweddariad blynyddol hwn yn cefnogi argymhellion TCFD drwy adrodd ar gynnydd o ran ein hamcanion strategol ers cyhoeddi'r Cynllun ym mis Mai 2023.

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn rhoi manylion o'n cynnydd o ran yr amcanion strategol a nodir yn ein Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid

# 2 Amcan 1: Sicrhau bod y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o bopeth a wnawn

## 2.1 Fframwaith Llywodraethu

Yn ystod 2023/24, fe wnaethom ddatblygu ein fframwaith llywodraethu ar gyfer newid yn yr hinsawdd i ddarparu dull cadarn o oruchwylio ein risgiau a'n cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, yn unol â'n hamcanion strategol. Mae'r strwythur llywodraethu yn dangos swyddogaethau adrodd rhanddeiliaid mewnol craidd a'r gweithgorau.

Y bwriad yw y bydd Bwrdd TrC yn goruchwylio ein gweithgareddau cadernid i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gweledigaeth gorfforaethol TrC. Drwy greu proses fonitro ac adrodd ffurfiol ar gyfer newid yn yr hinsawdd, gallwn sicrhau bod ein Bwrdd yn gwbl atebol am ein gweithgareddau i gynyddu cadernid hinsawdd ar draws y sefydliad.

## 2.2 Grŵp Llywio Newid yn yr Hinsawdd

Yn 2023, fe wnaethom sefydlu Grŵp Llywio Newid yn yr Hinsawdd (CCSG) i oruchwylio a darparu fframwaith atebolrwydd ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gweithgorau Ymaddasu i'r Hinsawdd ac Ynni a Charbon. Mae'r CCSG yn ymgynnull bob mis ac yn darparu trosolwg ac arweiniad ar benderfyniadau buddsoddi sy'n ymwneud â datgarboneiddio, rheoli ynni ac ymaddasu i'r hinsawdd. Yn ogystal â darparu swyddogaeth sicrwydd effeithiol, mae'r CCSG yn sicrhau cysondeb o ran dulliau gweithio ar draws y ddau weithgor adrodd.

## 2.3 Gweithgor Ymaddasu i’r Hinsawdd

Mae Gweithgor Ymaddasu i'r Hinsawdd CVL (CVL CCAWG) yn cael ei gadeirio ar y cyd gan yr Arweinydd Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid a'r Uwch Beiriannydd Asedau. Pwrpas y gweithgor yw ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau cefnogaeth a dull cydlynol a chydweithredol o ymaddasu i’r hinsawdd ar draws gweithrediadau TrC.

## 2.4 Fframwaith Llywodraethu

Ym mis Mawrth 2024, buom yn gweithio gydag ymgynghorwyr allanol i gynnal gweithdy ‘Mapio System Penderfyniadau’r Hinsawdd’ a oedd yn cwmpasu rhwydwaith CVL.  Felly, cynhaliwyd Gweithdy mapio system penderfyniadau yn Llys Cadwyn ddydd Mercher 6 Mawrth 2024.


# 3 Amcan 2: Asesu risgiau newid yn yr hinsawdd ar draws holl rwydweithiau a gweithrediadau TrC

## 3.1 Fframwaith Asesu Risgiau Newid Hinsawdd

### 3.1.1 Cyhoeddi a Chanllawiau

Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom gyhoeddi ein Fframwaith CCRA sy’n darparu dull safonol o asesu risgiau a chyfleoedd sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd, ar draws asedau a swyddogaethau busnes TrC. Mae'r Fframwaith yn cynnwys dogfen ganllaw gynhwysfawr ac offeryn asesu greddfol i gefnogi defnyddwyr i gwblhau CCRA ar draws y sefydliad.

Buom yn gweithio gyda'n tîm data mewnol i greu Dangosfwrdd Power BI (gweler isod). Bydd pob CCRA yn cael ei ychwanegu at y dangosfwrdd, a’i reoli a'i fonitro gan y Tîm Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni, i sicrhau tryloywder ar draws y sefydliad.




Ffigur 1: Dangosfwrdd CCRA TrC

### 3.1.2 Risgiau Newid Hinsawdd ar Linellau Craidd y Cymoedd

Ers i ni lansio Fframwaith CCRA TrC, mae'r flaenoriaeth wedi bod yn canolbwyntio ar CVL fel ein hasedau ein hunain, yn unol â chyfarwyddeb cylch gwaith Llywodraeth Cymru. Mae lleoliadau ar gyfer CCRA wedi cael eu blaenoriaethu yn ôl dull lefel risg sy'n seiliedig ar yr ardaloedd rydym yn gwybod sydd eisoes yn agored i ddigwyddiadau tywydd.


Rydym yn defnyddio gwybodaeth am asedau lleol a gwybodaeth am oedi gyda threnau (gweler graff 1) i ganfod gwendidau. Cynhaliwyd CCRA ar ddau leoliad daearyddol ac un ar brosiect penodol; gan nodi 51 o risgiau hinsawdd ar gyfer CVL, a briodolwyd yn bennaf i law. Ar hyn o bryd rydym yn rheoli ac yn monitro'r risgiau newid hinsawdd hyn yn unol â'n proses lywodraethu newid hinsawdd.

### 3.1.3 Aberpennar - Gweithdy Asesiad Risgiau Newid Hinsawdd

Fe wnaethom gynnal CCRA ar gyfer gorsafoedd Aberpennar a Threhafod. Canfu'r CCRA amrywiaeth o risgiau o ran tarfu ar wasanaethau, gweithrediadau trafnidiaeth, niwed i enw da, diogelwch cwsmeriaid a staff, effeithiau ariannol a digwyddiadau amgylcheddol posibl.

Yn 2023, fe wnaethom gwblhau'r CCRA cyntaf yn Aberpennar, ar ôl cael ei nodi'n flaenorol fel safle risg uchel. Roedd yr asesiad yn beilot i fireinio proses CCRA y dyfodol ar draws y sefydliad. Roedd y broses hon yn galw am fewnbwn gan Dîm Ynni Newid Hinsawdd TrC, Tîm Perchennog y Seilwaith a Pheirianwyr Asedau o Amey Infrastructure Wales.

Roedd canlyniad yr asesiad yn rhagori ar archwaeth risg TrC ac fe'i cyfeiriwyd at y CCSG i gael penderfyniad. O ystyried rôl Aberpennar wrth gynllunio llwybrau addasu, roedd y grŵp o'r farn bod y risg yn dderbyniol, gyda gwaith monitro ac ail-werthuso parhaus wedi'i gynllunio ar ôl cwblhau.




Ffigur 2: CCRA cyflawn ar gyfer Aberpennar

# 4 Amcan 3: Llunio a gweithredu atebion sy'n lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol

## 4.1 Mabwysiadu CCRA yn gynnar mewn Prosiectau

Yn 2023/24, fe wnaethom ffurfioli'r broses fel bod Asesiadau Risgiau Newid Hinsawdd yn cael eu cwblhau cyn y cam dylunio fel bod ymaddasu i'r hinsawdd yn ystyriaeth o ddechrau'r prosiect. Er mwyn sicrhau bod gofynion addasu a nodir gan brosiectau i leihau risgiau newid yn yr hinsawdd yn cael eu cofnodi, rydym hefyd wedi llunio templed Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd (CAP) TrC. Bydd angen i bob CAP gael ei gymeradwyo gan y CCSG, mae hyn yn unol â'n proses lywodraethu a nodir uchod.

## 4.2 Llwybrau Addasu Cyflym

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu ein hasedau seilwaith at y dyfodol rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd. I gefnogi hyn, fe wnaethom gomisiynu ymgynghorwyr allanol i

ddatblygu Llwybrau Ymaddasu i'r Hinsawdd, yn ogystal â'r darn Mapio Systemau Penderfyniadau.

Mae datblygu'r Llwybrau Addasu yn rhoi dull dadansoddol i TrC archwilio a threfnu set o gamau gweithredu posibl yn seiliedig ar ddatblygiadau allanol dros amser. Mae'n caniatáu i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gynllunio ar gyfer buddsoddi mewn opsiynau addasu, eu blaenoriaethu a'u gwasgaru, gyda throthwyon a phwyntiau sbarduno yn helpu i nodi pryd i ailedrych ar benderfyniadau neu gamau gweithredu.

Cafodd yr Asesiadau Llwybrau Addasu Cyflym (RAPAs) eu datblygu yn ystod pedwar gweithdy a drefnwyd rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2024. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol RAPA ar y llwybrau ymaddasu i'r hinsawdd hyn ym mis Awst 2024. Y bwriad yw y bydd y broses hon yn cefnogi dysgu ac yn darparu fframwaith i TrC ei ddilyn, gyda'r fethodoleg yn cael ei defnyddio i ddatblygu llwybrau addasu ar gyfer asedau eraill ledled Cymru.

## 4.3 Wal a Tho Gwyrdd yn Llys Cadwyn

Yn 2023, fe wnaethom fuddsoddi yn ein prototeip cyntaf o wal a tho gwyrdd yn ein swyddfa yn Llys Cadwyn. Gall waliau a thoeon gwyrdd chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o leihau llifogydd, helpu i gadw adeiladau'n oer yn ystod yr haf a darparu cysgod.

Mae'r ddau brototeip wedi darparu gwersi allweddol i ni fel sefydliad ac wedi gwella ein dealltwriaeth o atebion ar sail natur fel opsiwn ar gyfer ymaddasu i'r hinsawdd.



Ffigur 4: Wal werdd yn swyddfa Llys Cadwyn TrC

Mae ymaddasu i'r hinsawdd yn hanfodol i leihau risgiau effeithiau newid yn yr hinsawdd ar ein busnes, ar lesiant ein staff ac ar drafnidiaeth yng Nghymru. Wrth i waith fynd rhagddo gyda'n CCRA, byddwn yn parhau i flaenoriaethu atebion ar sail natur fel mesurau addasu.

# 5 Amcan 4: Galluogi adferiad amserol o effeithiau tywydd garw

## 5.1 Monitro'r Effeithiau

Mae tywydd garw yn effeithio ar TrC fel sefydliad, yn ogystal â'r bobl a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Roedd ein CARP yn cynnwys dadansoddiad o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd sydd wedi cael effaith niweidiol ar berfformiad. Rydym wedi parhau i adeiladu ar y data hwn ac wedi creu dangosfwrdd Power BI i'n helpu i ddeall ardaloedd agored i niwed ar draws rhwydwaith CVL.

## 5.2 Cynllunio ar gyfer Tywydd Garw

Yn ystod 2023/24, buom yn gweithio'n agos gydag ymgynghorwyr allanol ac Amey Infrastructure Wales i ddatblygu Cynlluniau Rheoli Tywydd Garw ar draws rhwydwaith CVL. Mae'r dogfennau hyn wedi cael eu cynhyrchu i gefnogi gweithrediad y rheilffyrdd yn ystod cyfnodau o dywydd garw. Mae ein timau rheoli asedau wrthi'n adolygu pa mor addas yw'r system rhagolygon tywydd bresennol ac yn cysylltu â'r tîm tywydd yn Network Rail i edrych ar opsiynau newydd ar gyfer rhagolygon. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r trothwyon mewn perthynas â phob disgyblaeth i benderfynu beth sy'n cael ei ystyried yn dywydd garw ac eithafol.

## 5.3 Monitro Cyflwr Llwybrau

Mae gennym ffrwd waith barhaus sy'n edrych ar Fonitro Cyflwr Llwybrau (RCM) ar draws rhwydwaith CVL. Mae nifer o ddyfeisiau monitro eisoes wedi cael eu gosod gan Amey Infrastructure Wales sy'n darparu gwybodaeth amser real am gyflwr asedau. Mae amrywiaeth o waith RCM wedi'i ddefnyddio ar safleoedd sy'n peri risg uchel, fel asedau draenio sy'n dueddol o ddioddef llifogydd oherwydd cyfyngiadau llif. Yn 2023/24 rydym wedi datblygu ein Strategaeth RCM hirdymor, a fydd yn gwella ein dealltwriaeth o effeithiau Newid yn yr Hinsawdd ar Seilwaith Rheilffyrdd CVL.

## 5.4 Prifysgol Caerdydd - Mapio Llifogydd Afonol

Gweithiodd tîm Perchennog Seilwaith TrC gyda Phrifysgol Caerdydd i ddatblygu model hydrolig astudiaeth achos, wedi'i adeiladu o is-ardal yn y rhanbarth (Afon Cynon) yn ystod digwyddiad arwyddocaol (Storm Dennis - Chwefror 2020). Nod y gwaith hwn oedd darparu'r ôl troed ar gyfer datblygu system rhybuddion llifogydd weithredol ar gyfer ardal CVL. Roedd yr astudiaeth achos yn rhoi cipolwg ar fanteision datblygu systemau rhybuddion llifogydd effeithiol ar draws rhwydwaith CVL, drwy asesu'r perygl o lifogydd a pha mor agored i niwed ydynt oherwydd newid yn yr hinsawdd.

# 6 Amcan 5 - Cydweithio â phartneriaid allanol i leihau pa mor agored ydy TrC i fethiannau cronnus

## 6.1 Ein Gwaith gyda Network Rail

Yn 2023/24, fe wnaethom weithio'n agos gyda Network Rail drwy'r 'Model Cyfuno'; 'Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth' rhwng TrC a Network Rail i ddod o hyd i ffyrdd y gallwn weithio gyda'n gilydd yn fwy di-dor i gyflawni amcanion cyffredin. Yr uchelgais yw creu cynllun ar y cyd gan gynnwys datganiad cenhadaeth sy'n canolbwyntio ar gadernid ac ymaddasu i'r hinsawdd. Bwriad y cynllun ar y cyd yw gweithio'n agos gyda Network Rail ar y safleoedd hynny sy'n croesi ffiniau rhwydwaith; yn ogystal ag edrych ar ddalgylchoedd ar gyfer arafu llifogydd, gweithio gyda thirfeddianwyr mwy a chanolbwyntio ar 'Atebion ar Sail Natur'.

## 6.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Er mwyn paratoi ar gyfer dod yn gorff a enwir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan yng Ngrŵp Gorchwyl Asesu Risgiau Newid Hinsawdd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi eu CCRCA. Drwy ddarparu data, byddwn yn gallu cefnogi ein rhanddeiliaid ac ymgysylltu â nhw i archwilio gwahanol gyfuniadau risg sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.

## 6.3 Gweithgorau a Fforymau Allanol

Drwy gydol 2023/24, fe wnaethom gyfrannu at nifer o weithgorau a fforymau, gan gynnwys Grŵp Gweithredu ar Lifogydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Fforwm Addasu Perchennog y Seilwaith (IOAF) a Gweithgor Ymaddasu i'r Hinsawdd RSSB. Buom yn gweithio ar y cyd ag aelodau craidd y grŵp RSSB i gasglu ymgynghoriadau grŵp ac i ddatblygu matrics aeddfedrwydd ymaddasu i'r hinsawdd ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd.

# 7 Crynodeb o'r prif ddiweddariadau gweithredu

Yn ein CARP, rydym wedi amlinellu ein Cynllun Gweithredu ar gyfer cadernid hinsawdd, ac mae'n bodoli fel cam cyntaf ar ein taith o gynyddu cadernid ar draws TrC. Pwrpas yr adran hon yw darparu diweddariadau allweddol ar y camau gweithredu a nodir yn y cynllun sydd wedi cael eu cwblhau drwy gydol 2023/24. Mae ein dealltwriaeth o'r adnoddau sydd eu hangen i gwblhau'r camau hyn wedi gwella wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, felly mae'r dyddiadau cwblhau targed wedi cael eu diwygio yn unol â hynny.

Tabl 1: Crynodeb o'r Prif Gamau Gweithredu a Diweddariadau

| Cam Gweithredu | Dyddiad Cwblhau Targed | Dyddiad Cwblhau Gwirioneddol | Diweddariadau |
|---|---|---|---|
| Sefydlu Grŵp Llywio Newid yn yr Hinsawdd cyffredinol (CCSG) TrC a Gweithgor Ymaddasu i'r Hinsawdd (CCAWG) sy'n canolbwyntio ar CVL | **2022** | **2022** | Mae CCAWG TrC sy'n canolbwyntio ar CVL wedi bod yn rhedeg o bryd i'w gilydd ers mis Tachwedd 2022 ac mae'n ganolbwynt ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd sy'n effeithio ar seilwaith CVL.<br><br>Mae CCSG TrC (Grŵp Llywio Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid gynt) wedi bod yn rhedeg o bryd i'w gilydd ers mis Mawrth 2023 ac mae'n gyfrifol am ddarparu swyddogaeth sicrwydd effeithiol ar gyfer rheoli ein risgiau newid hinsawdd. Mae cylch gwaith y grŵp yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd i gynnwys risgiau pontio. |
| Gwreiddio safon ymaddasu i'r hinsawdd ISO 14090:2019 | **2025** | **Parhaus** | Mae gwaith yn mynd rhagddo i gysoni prosesau addasu TrC ag egwyddorion ISO 14090:2019. Mae camau integreiddio cychwynnol wedi dechrau, gan ganolbwyntio ar wreiddio'r safon mewn fframweithiau llywodraethu a phrosiectau, gyda rhagor o waith mireinio wedi'i gynllunio ar gyfer 2024/25. |

| Cam Gweithredu | Dyddiad Cwblhau Targed | Dyddiad Cwblhau Gwirioneddol | Diweddariadau |
|---|---|---|---|
| Datblygu cynlluniau rheoli ac ymateb ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol ac achosion o rywogaethau goresgynnol/plâu a chlefydau sy'n dod i'r amlwg | **2024** | **Parhaus** | Mae Cynlluniau Rheoli Tywydd Garw yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer 2024/25 (gweler Amcan 4 am ragor o fanylion). |
| Hwyluso'r gwaith o gydlynu Gweithgor Ymaddasu i'r Hinsawdd traws-ddisgyblaeth ar gyfer Perchnogion Seilwaith yng Nghymru er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau rheoli ar gyfer methiannau cronnus | **2024** | **Wedi'i ohirio** | Rydym wedi cynnal y gwaith mapio rhanddeiliaid cychwynnol. |
| Datblygu fframwaith a dogfen ganllawiau ar ragolygon yr hinsawdd i gefnogi'r gwaith o asesu'r risg hinsawdd | **2023** | **2023** | Fe wnaethom gyhoeddi ein Fframwaith CCRA ym mis Hydref 2023. Mae'r ddogfen yn darparu dull safonol ar gyfer asesu risg newid yn yr hinsawdd ar draws y sefydliad. |
| Cynhyrchu asesiadau effaith sy'n gysylltiedig â'r tywydd ar gyfer CVL, gan ganolbwyntio ar y canlynol: Llifogydd, tirlithriadau, gwres, mellt, codiad yn lefel y môr, gwynt, oerni difrifol, gwres a niwl | **2024** | **Parhaus** | Rydym yn gweithio i ddeall risgiau ar draws y system a nodwyd drwy CCRA.<br>Dadansoddiad o'r bylchau i'w gynnal yn 2024/25 i ddeall y gorgyffwrdd â chamau gweithredu presennol. |
| Ymgorffori'r asesiadau o risgiau newid hinsawdd angenrheidiol o fewn holl brosiectau mawr TrC (fel Metro Gogledd Cymru) a pholisïau presennol | **2024** | **2024** | Rydym wedi cynllunio a darparu hyfforddiant CCRA ar draws TrC i alluogi'r cam gweithredu hwn. Rydym yn gweithio'n agos gyda thimau mewnol i wreiddio'r gofyniad yng Nghylch Bywyd Cynllun Gwaith TrC. |

| Cam Gweithredu | Dyddiad Cwblhau Targed | Dyddiad Cwblhau Gwirioneddol | Diweddariadau |
|---|---|---|---|
| Ymgymryd ag asesiad cynhwysfawr o'r risg hinsawdd ar draws rhwydwaith CVL, gan gynnwys gorsafoedd a depos | **2024** | **Parhaus** | Rydym wrthi'n cwblhau CCRA ar draws rhwydwaith CVL. Mae'r rhain yn cael eu blaenoriaethu ar sail sgoriau risg ar gyfer ardaloedd sy'n dueddol o ddioddef effeithiau tywydd garw (gweler Amcan 2 am ragor o fanylion). |
| Datblygu Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid ar gyfer rhwydwaith CVL, gan gynnwys draenio a chloddwaith | **2024** | **Parhaus** | Y camau gweithredu i'w blaenoriaethu ar gyfer 2024/25 (gweler Blaenoriaethau ar gyfer y Flwyddyn i Ddod am ragor o fanylion) |
| Datblygu cynllun Rheoli Llystyfiant | **2024** | **Parhaus** | Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i lunio strategaeth bioamrywiaeth ar gyfer CVL, gyda'r nod o gynnal, adfer a gwella cadernid ecolegol coridor rheilffordd CVL. |
| Datblygu llwybrau ymaddasu i'r hinsawdd (a gefnogir gan BS 8631: Ymaddasu i'r hinsawdd - Defnyddio llwybrau addasu ar gyfer gwneud penderfyniadau) ar gyfer CVL | **2024** | **Parhaus** | Rydym yn gweithio gydag ymgynghorwyr allanol i ddatblygu llwybrau addasu ar gyfer 8 lleoliad ar draws CVL (gweler Amcan 3 am ragor o fanylion). |
| Ymchwilio i gynlluniau Atebion ar Sail Natur a datblygu canllawiau gweithredu | **2024** | **Parhaus** | Y camau gweithredu i'w blaenoriaethu ar gyfer 2024/25 (gweler Blaenoriaethau ar gyfer y Flwyddyn i Ddod am ragor o fanylion). |

# 8 Blaenoriaethau ar gyfer 2024-25

Tabl 2: Blaenoriaethau ar gyfer 2024-25

Mae'r tabl isod yn rhestru'r gweithgareddau rydyn ni wedi'u blaenoriaethu i gefnogi'r amcanion yn ein CARP ac i gynyddu ein dealltwriaeth o sut bydd newid hinsawdd yn effeithio arnom ni.

| Blaenoriaeth | Cam gweithredu ategol | Mantais Busnes |
|---|---|---|
| 1. Datblygu Cynllun Cyflawni Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid ar gyfer rhwydwaith CVL | Bydd y CCRA yn sail iddo a bydd yn rhoi manylion am sut rydym yn rheoli'r risgiau hyn ar draws y rhwydwaith.<br>Sefydlu Gweithgor Tywydd Eithafol i gefnogi'r gwaith o reoli'r cynllun. | Byddwn yn gallu pennu'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y tymor hir i gynyddu cadernid y rhwydwaith. Rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am gyfleoedd buddsoddi a chyllido. |
| 2. Ymchwilio i Gynlluniau Atebion ar Sail Natur a Datblygu Canllawiau Gweithredu | Bydd gweithgareddau yn y blynyddoedd ariannol nesaf yn cynnwys detholiad o safleoedd treialu i ddangos manteision atebion sy'n seiliedig ar natur. Gall hyn fod ar gyfer lliniaru bioamrywiaeth, lleihau'r perygl o lifogydd, amwynder lleol a manteision eraill nad ydynt yn economaidd. Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad y cynlluniau hyn gyda'r bwriad o ddatblygu canllawiau gweithredu ar gyfer ein rhanddeiliaid. | Dangos effeithiolrwydd atebion sy'n seiliedig ar natur; gan gynnwys manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i TrC a'n rhanddeiliaid allweddol. Bydd unrhyw gynigion o'r fath yn cael eu cydlynu rhwng gwahanol dimau, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â sawl agwedd strategol; gan gynnwys ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CARP a Chynlluniau Datblygu Trafnidiaeth, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. |
| 3. Gwreiddio'r Asesiad o Risgiau Hinsawdd ar draws TrC | Hyfforddiant CCRA ar draws y sefydliad, bydd Tîm Newid Hinsawdd ac Ynni TrC yn gweithio'n agos gyda'r tîm Datblygu Strategol sy'n arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau'n gynnar, gan gynnwys ar gyfer rhwydwaith bysiau TrC a depos bysiau. | Ymgorffori mesurau cadernid hinsawdd yng nghamau dichonoldeb y prosiect. Cefnogi Cynllun Busnes Blynyddol TrC 2024/25 lle mae cadernid hinsawdd wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth. |